# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Zoom

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Mai 2020

Amser: 13:00-16:00

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AS (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AS<br>Gareth Bennett AS<br>Delyth Jewell AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Helen Mary Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Tystion: | Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol<br>Marie Brousseau-Navarro, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>Heledd Morgan, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mike Usher, Archwilio Cymru<br>Catryn Holzinger, Archwilio Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| Archwilio Cymru | Matthew Mortlock<br>Nick Selwyn |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Chloe Corbyn (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Hefyd, croesawodd y Cadeirydd Gadeiryddion y Pwyllgorau eraill a oedd yn ymweld, Llyr Gruffydd AS, Helen Mary Jones AS a Dai Lloyd AS.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Vikki Howells AS.

## 2 Gwaith ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Briffio ar yr Adroddiadau Statudol cyntaf

2.1 Cafodd y Pwyllgor friff ar yr Adroddiadau Statudol cyntaf ar Waith Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol gan Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2.2 Holodd yr Aelodau’r tystion.

## 3 Gwaith ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Trafodaeth am Ymchwiliad y Pwyllgor sydd ar ddod

3.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymchwiliad sydd ar ddod ar Waith Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac at Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan anfon copi at Gadeirydd pob Pwyllgor arall y

Senedd, yn amlinellu rhai o'r casgliadau ac ystyriaethau cychwynnol ar gyfer y camau nesaf i hwyluso gwaith craffu'r Senedd.

## 4 Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Trafod yr adroddiad drafft

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a bydd yn trafod y drafft ymhellach yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2020.